# CYNGOR CYMUNED LLANDYFAELOG

# LLANDYFAELOG COMMUNITY COUNCIL

# ADRODDIAD FLYNYDDOL 2024-25

# ANNUAL REPORT 2024-25



Llun / Photo – Rob Ashcroft

**Cynnwys**


1. **Croeso gan Gadeirydd y Cyngor**
2. **Aelodau'r Cyngor**
3. **Cyfarfodydd y Cyngor 2024-25**
4. **Cyfrifon Ariannol 2024-25**
5. **Gwasanaethau'r Cyngor**
6. **Gweithgaredd cymunedol**
7. **Cynlluniau 2025-26**


**Contents**


1. **Welcome from the Council Chairman**
2. **Council members**
3. **Council meetings 2024-25**
4. **Financial Accounts 2024-25**
5. **Council Services**
6. **Community activity**
7. **2025-26 plans**

## 1. Croeso gan Gadeirydd y Cyngor – Cynghorydd Nicola Jones

Mae’n bleser mawr gennyf gyflwyno Adroddiad Blynyddol 2024-25 ar gyfer Cyngor Cymuned Llandyfaelog. Mae’r adroddiad yn nodi gweithgareddau’r Cyngor Cymuned yn ystod y flwyddyn a sut mae wedi gweithio i gyflawni nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol.

Mae wedi bod yn flwyddyn brysur arall i'r Cyngor gyda gwaith yn cael ei wneud i barhau i ddarparu ystod eang o wasanaethau i drigolion. Mae’r Cyngor wedi gallu trefnu nifer o weithgareddau, gan gynnwys Cystadleuaeth Arddio Flynyddol a chystadleuaeth Ymdrech Gymunedol - Bwgan Brain.

Trefnodd y Cyngor hefyd Wasanaeth Sul y Cofio yn Nhir Gof ar y cyd â Changen Cydweli o’r Lleng Brydeinig Frenhinol, Eglwys Llandyfaelog a Lucy Sullivan fel Bugler. Roedd y Cyngor hefyd yn gallu cefnogi Pwyllgor Neuadd Gymunedol Llandyfaelog yn ariannol yn eu trefniadau ar gyfer y Carnifal Nadolig ym mis Rhagfyr.

Mae amwynderau'r Cyngor Cymuned wedi parhau i gael eu cynnal i safon uchel ac maent yn glod i'n Hatgyweiriwr ymroddedig, Michael Leefe. Diolch i’m holl gyd-aelodau o Gyngor Cymuned Llandyfaelog a’n Clerc Arfon Davies am eu cefnogaeth a chyngor drwy’r flwyddyn.

Gyda fy nymuniadau gorau i'r holl drigolion

Cyng Nicola Jones
Cadeirydd Cyngor Cymuned Llandyfaelog 2024-25

## 1. Welcome from the Council Chairman – Councillor Nicola Jones

It gives me great pleasure to present the 2024-25 Annual Report for Llandyfaelog Community Council. The report sets out the Community Council’s activities during the year and how it has worked to meet the goals of the Well-Being of Future Generations Act.

This has proved to be another busy year for the Council with work being undertaken to continue to provide a wide range of services to residents. The Council has been able to arrange a number of activities, this included the Annual Garden Competition and Community Effort - Scarecrow competition.

The Council also arranged a Remembrance Sunday Service at Tir Gof in conjunction with the Kidwelly Branch of the Royal British Legion, Llandyfaelog Church and Lucy Sullivan as Bugler. The Council was able to financially support Llandyfaelog Community Hall Committee in their arrangements for the Christmas Carnival in December.

The Community Council amenities have continued to be maintained to a high standard and are a credit to our dedicated Handyperson, Michael Leefe. My thanks to all my fellow members of Llandyfaelog Community Council and our Clerk Arfon Davies for their support and advice throughout the year.

With my very best wishes to all residents

Cllr Nicola Jones
Llandyfaelog Community Council Chairman 2024-25



## 2. Aelodau'r Cyngor

**Yn ystod 2024-25 roedd aelodau Cyngor Cymuned Llandyfaelog fel a ganlyn:**

- Cyng Philip Davies, Coedbach, Llandyfaelog (Is-Gadeirydd)
- Cyng Viv Davies, Maesglasnant, Cwmffrwd
- Cyng Meinir James, Ochr y Cwm, Croesyceiliog
- Cyng Eifion Jones, Cilfeithy Uchaf, Cydweli
- Cyng Nicola Jones, Star Forge, Upland Arms (Cadeirydd)
- Cyng Rheinallt Jones, Ystrad Ferthyr, Llandyfaelog
- Cyng Janet Knott, Danybanc, Bancycapel
- Cyng Shan Rees, Cartref, Llandyfaelog
- Cyng Elfyn Williams, Maesdolau, Idole
- Cyng Carys Thomas, Ger y Llan, Llandyfaelog
- Cyng Jenny Jones, Pant y Crug, Glanmorlais

**Staff y Cyngor**

- Arfon Davies, Clerc Cyngor Cymuned Llandyfaelog, Maesmawr, Glanyfferi, SA17 5YD, llandyfaelog@btinternet.com, 01267 267647
- Michael Leefe, Atgyweiriwr y Cyngor Cymuned

www.llandyfaelog.org.uk

## 2. Council Members

**During 2024-25 Llandyfaelog Community Council members were**

- Cllr Philip Davies, Coedbach, Llandyfaelog (Vice-Chairman)
- Cllr Viv Davies, Maesglasnant, Cwmffrwd
- Cllr Meinir James, Ochr y Cwm, Croesyceiliog
- Cllr Eifion Jones, Cilfeithy Uchaf, Kidwelly
- Cllr Nicola Jones, Star Forge, Upland Arms (Chairman)
- Cllr Rheinallt Jones, Ystrad Ferthyr, Llandyfaelog
- Cllr Janet Knott, Danybanc, Bancycapel
- Cllr Shan Rees, Cartref, Llandyfaelog
- Cllr Elfyn Williams, Maesdolau, Idole
- Cllr Carys Thomas, Ger y Llan, Llandyfaelog
- Cllr Jenny Jones, Pant y Crug, Glanmorlais

**Council Staff**

- Arfon Davies, Clerk to Llandyfaelog Community Council, Maesmawr, Ferryside, SA17 5YD, llandyfaelog@btinternet.com, 01267 267647
- Michael Leefe, Community Council Handyperson

www.llandyfaelog.org.uk

### 3. Cyfarfodydd y Cyngor

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd cyfarfodydd y Cyngor fel a ganlyn:

- 15fed Mai 2024 (cyfarfod blynyddol)
- 6ed Mehefin 2024
- 11fed Gorffennaf 2024
- 5ed Medi 2024
- 3ydd Hydref 2024
- 7fed Tachwedd 2024
- 5ed Rhagfyr 2024
- 9fed Ionawr 2025
- 6ed Chwefror 2025
- 6ed Mawrth 2025
- 3ydd Ebrill 2025

Cynhelir cyfarfodydd y Cyngor yn Neuadd Gymunedol Llandyfaelog am 7.30yh ar ddydd Iau cyntaf y mis, yn ogystal, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 gellir darparu mynediad i aelodau neu drigolion sy'n dymuno mynychu'r cyfarfod o bell. Gellir trefnu hyn trwy Glerc y Cyngor.

### 3. Council meetings

During the year, meetings of the Council were held as follows:

- 15th May 2024 (Annual meeting)
- 6th June 2024
- 11th July 2024
- 5th September 2024
- 3rd October 2024
- 7th November 2024
- 5th December 2024
- 9th January 2025
- 6th February 2025
- 6th March 2025
- 3rd April 2025

Meetings of the Council are held at Llandyfaelog Community Hall at 7.30pm on the first Thursday of the month, additionally, in accordance with the Local Government and Elections (Wales) Act 2021 access can be provided to members or residents who wish to attend the meeting remotely. This can be arranged through the Council Clerk.

## 4. Cyfrifon Ariannol

Mae'r cyfrifon drafft, wedi'u harchwilio'n fewnol ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2024-25 fel a ganlyn:

# Ffurflen Flynyddol ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i Ben ar 31 Mawrth 2025

## Datganiad cyfrifyddu 2024-25 ar gyfer:

Enw'r corff: Cyngor Cymuned Llandyfaelog

| | Y flwyddyn a ddaeth i ben | | Nodiadau a chanllawiau |
|---|---|---|---|
| | 31 Mawrth 2024 (£) | 31 Mawrth 2025 (£) | **Dylech dalgrynnu'r holl ffigyrau i'r £ agosaf.** **Peidiwch â gadael unrhyw flychau yn wag gan gofnodi balansau o £0 neu ddim. Rhaid i bob ffigwr fod yn gyson â'r cofnodion ariannol sylfaenol ar gyfer y flwyddyn berthnasol.** |
| **Datganiad o incwm a gwariant/derbyniadau a thaliadau** | | | |
| **1.** Balansau a ddygwyd ymlaen | 22731 | 21284 | Cyfanswm y balansau a'r cronfeydd wrth gefn ar ddechrau'r flwyddyn fel y'u cofnodwyd yn y cofnodion ariannol. Rhaid iddo fod yn gyson â llinell 7 y flwyddyn flaenorol. |
| **2.** (+) Incwm o drethiant lleol/ardoll | 25380 | 27320 | Cyfanswm yr incwm a dderbyniwyd/derbyniadwy yn ystod y flwyddyn o drethiant lleol (praesept) neu ardoll/cyfraniad gan brif gyrff. |
| **3.** (+) Cyfanswm derbyniadau eraill | 565 | 379 | Cyfanswm incwm neu dderbyniadau a gofnodwyd yn y llyfr arian parod namyn y symiau a gynhwysir yn llinell 2. Mae'n cynnwys grantiau cymorth, dewisol a refeniw. |
| **4.** (-) Costau staff | 8981 | 9329 | Cyfanswm gwariant neu daliadau a wnaed i bob cyflogai ac ar ei ran. Dylech gynnwys cyflogau, lwfansau trethadwy, TWE ac YG (cyflogeion a chyflogwyr), cyfraniadau pensiwn a chostau terfynu. Ni ddylech gynnwys ad-dalu mân dreuliau. |
| **5.** (-) Llog ar fenthyciadau/ ad-daliadau cyfalaf | 0 | 0 | Cyfanswm gwariant neu daliadau cyfalaf a llog a wnaed yn ystod y flwyddyn ar fenthyciadau allanol (os o gwbl). |
| **6.** (-) Cyfanswm taliadau eraill | 18411 | 18342 | Cyfanswm gwariant neu daliadau fel y'u cofnodwyd yn y llyfr arian parod namyn costau staff (llinell 4) a llog ar fenthyciadau/ad-daliadau cyfalaf (llinell 5). |
| **7.** (=) Balansau a gariwyd ymlaen | 21284 | 21311 | Cyfanswm y balansau a'r cronfeydd wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn. Rhaid iddo fod yn hafal i (1+2+3) – (4+5+6). |
| **Datganiad o falansau** | | | |
| **8.** (+) Dyledwyr | 737 | 714 | **Cyfrifon incwm a gwariant yn unig:** Nodwch werth dyledion sy'n ddyledus i'r corff ar ddiwedd y flwyddyn. |
| **9.** (+) Cyfanswm arian parod a buddsoddiadau | 25395 | 25622 | **Pob cyfrif:** Swm yr holl gyfrifon banc cyfredol a chadw, daliadau ariannol a buddsoddiadau a ddelir ar 31 Mawrth. Rhaid i hyn fod yn gyson â balans cysoni'r llyfr arian parod yn unol â'r cysoniad banc. |
| **10.** (-) Credydwyr | 4848 | 5024 | **Cyfrifon incwm a gwariant yn unig:** Nodwch werth yr arian sy'n ddyledus gan y corff (heblaw benthyciadau) ar ddiwedd y flwyddyn. |
| **11.** (=) Balansau a gariwyd ymlaen | 21284 | 21311 | **Dylai cyfanswm y balansau fod yn hafal i linell 7 uchod:** Nodwch gyfanswm (8+9-10). |
| **12.** Cyfanswm asedau sefydlog ac asedau hirdymor | 79494 | 79494 | Gwerth cofrestr asedau a buddsoddiadau pob ased sefydlog ynghyd ag unrhyw asedau hirdymor eraill a ddelir ar 31 Mawrth. |
| **13.** Cyfanswm benthyciadau | 0 | 0 | Balans cyfalaf dyledus pob benthyciad gan drydydd partïon ar 31 Mawrth (gan gynnwys PWLB). |

## 4. Financial Accounts

The draft, internally audited accounts for the 2024-25 Financial Year are as follows:

# Annual Return for the Year Ended 31 March 2025

## Accounting statement 2024-25 for:

Name of body: Llandyfaelog Community Council

| | Year ending | | Notes and guidance |
|---|---|---|---|
| | 31 March 2024 (£) | 31 March 2025 (£) | **Please round all figures to nearest £.** **Do not leave any boxes blank and report £0 or nil balances. All figures must agree to the underlying financial records for the relevant year.** |
| **Statement of income and expenditure/receipts and payments** | | | |
| **1.** Balances brought forward | **22731** | **21284** | Total balances and reserves at the beginning of the year as recorded in the financial records. Must agree to line 7 of the previous year. |
| **2.** (+) Income from local taxation/levy | **25380** | **27320** | Total amount of income received/receivable in the year from local taxation (precept) or levy/contribution from principal bodies. |
| **3.** (+) Total other receipts | **565** | **379** | Total income or receipts recorded in the cashbook minus amounts included in line 2. Includes support, discretionary and revenue grants. |
| **4.** (-) Staff costs | **8981** | **9329** | Total expenditure or payments made to and on behalf of all employees. Include salaries and wages, taxable allowances, PAYE and NI (employees and employers), pension contributions and termination costs. Exclude reimbursement of out-of-pocket expenses. |
| **5.** (-) Loan interest/capital repayments | **0** | **0** | Total expenditure or payments of capital and interest made during the year on external borrowing (if any). |
| **6.** (-) Total other payments | **18411** | **18342** | Total expenditure or payments as recorded in the cashbook minus staff costs (line 4) and loan interest/capital repayments (line 5). |
| **7.** (=) Balances carried forward | **21284** | **21311** | Total balances and reserves at the end of the year. Must equal (1+2+3) – (4+5+6). |
| **Statement of balances0** | | | |
| **8.** (+) Debtors | **737** | **714** | **Income and expenditure accounts only:** Enter the value of debts owed to the body at the year-end. |
| **9.** (+) Total cash and investments | **25395** | **25622** | **All accounts:** The sum of all current and deposit bank accounts, cash holdings and investments held at 31 March. This must agree with the reconciled cashbook balance as per the bank reconciliation. |
| **10.** (-) Creditors | **4848** | **5024** | **Income and expenditure accounts only:** Enter the value of monies owed by the body (except borrowing) at the year-end. |
| **11.** (=) Balances carried forward | **21284** | **21311** | **Total balances should equal line 7 above:** Enter the total of (8+9-10). |
| **12.** Total fixed assets and long-term assets | **79494** | **79494** | The asset and investment register value of all fixed assets and any other long-term assets held as at 31 March. |
| **13.** Total borrowing | 0 | **0** | The outstanding capital balance as at 31 March of all loans from third parties (including PWLB). |

**Cymorth Ariannol**

Yn ystod y flwyddyn darparwyd cymorth ariannol i sefydliadau lleol fel a ganlyn:

- Apêl Gardd T592 PPH £50.00
- Menter Cwm Gwendraeth £75.00
- Cerebral Palsy Cymru £25.00
- Radio Glangwili £25.00
- Cynllun Bocsys Teganau Nadolig Caerfyrddin £150.00
- Gwasanaeth Gwybodaeth a Chymorth Cancr £25.00
- Opera Ieuenctid Caerfyrddin a'r Cylch £50.00
- CFfI Llanismel £200.00
- Eisteddfod Gadeiriol Llandyfaelog £75.00
- Urdd Gobaith Cymru – Eisteddfod Genedlaethol 2025 £25.00
- Urdd Gobaith Cymru (Apêl Lleol) £25.00
- Neuadd Gymunedol Llandyfaelog
  - Grant Blynyddol £625.00
  - Goeden Nadolig £100.00

**Financial Support**


During the year financial support to local organisation was provided as follows:

- T592 PPH Garden Appeal £50.00
- Menter Cwm Gwendraeth £75.00
- Cerebral Palsy Cymru £25.00
- Radio Glangwili £25.00
- Carmarthenshire County Council Toy Box appeal £150.00
- Cancer information and Support Services £25.00
- Carmarthen and District Youth Opera £50.00
- St Ishmaels YFC £200.00
- Eisteddfod Gadeiriol Llandyfaelog £75.00
- Urdd Gobaith Cymru - 2025 National Eisteddfod £25.00
- Urdd Gobaith Cymru (Local appeal) £25.00
- Llandyfaelog Community Hall
  - Annual Grant £625.00
  - Christmas Tree £100.00

## 5. Gwasanaethau'r Cyngor

Mae’r Cyngor yn darparu ystod eang o wasanaethau i Gymuned Llandyfaelog gan gynnwys y canlynol:

- Cae Chwarae a pharc Idole
- Gardd Tir Gof, Llandyfaelog
- Ardal Amwynder Idole
- Ardal Amwynder Bancycapel
- Ardal Amwynder Cwmffrwd
- 6 x diffibriliwr (a brynwyd trwy haelioni preswylwyr yn dilyn apêl a wnaed gan wirfoddolwyr Cymunedol), wedi'u lleoli ar draws y Gymuned ym Mancycapel, Croesyceiliog, Cwmffrwd, Idole, Glanmorlais ac Upland Arms
- 9 x hysbysfyrddau ar draws y Gymuned
- 3 x panel gwybodaeth hanesyddol yng Nghwmffrwd, Idole a Llandyfaelog
- Planwyr arwyddion pentref
- Nifer o feinciau yn y Gymuned
- Darparu goleuadau llwybrau troed ar ochr y ffordd
- Cynnal a chadw Tŷ Pwmp Llandyfaelog
- Torri gwair ar y llain ymyl rhwng Pwll y Baw a Glanmorlais
- Cysodfannau bws ym Mancycapel, Croesyceiliog a Chwmffrwd
- Darparu rhoddion ariannol i fudiadau Cymunedol ac elusennol
- Enwebu aelodau i fynychu Neuadd Gymunedol Llandyfaelog
- Y Cyngor yw ymddiriedolwr gwarchod Neuadd Gymunedol Llandyfaelog
- Darparu Cylchlythyr Cymunedol ar-lein chwarterol



Tir Gof, Llandyfaelog

## 5. Council Services

The Council provides a wide range of services to the Llandyfaelog Community including the following:

- Idole Playing Field and park
- Tir Gof Garden, Llandyfaelog
- Idole Amenity Area
- Bancycapel Amenity Area
- Cwmffrwd Amenity Area
- 6 x defibrillators (purchased through resident generosity following an appeal undertaken by Community volunteers), located across the Community at Bancycapel, Croesyceiliog, Cwmffrwd, Idole, Glanmorlais and Upland Arms
- 9 x notice boards across the Community
- 3 x historical information panels at Cwmffrwd, Idole and Llandyfaelog
- Village sign planters
- Numerous benches in the Community
- Provision of footway and roadside lighting
- Maintenance of Llandyfaelog Pumphouse
- Grass cutting of the verge between Pwll y Baw and Glanmorlais
- Bus shelters at Bancycapel, Croesyceiliog and Cwmffrwd
- Provision of financial donations to Community and charitable organisations
- Nominates members to attend Llandyfaelog Community Hall
- The Council is custodian trustee of Llandyfaelog Community Hall
- Provision of a quarterly online Community Newsletter



Cae Idole Field

## 6. Gweithgareddau yn ystod 2024-25

Roedd 2024-25 yn flwyddyn brysur arall i’r Cyngor Cymuned. Mae'r Cyngor yn gweithredu'n rhagweithiol i gynrychioli trigolion lleol ac yn adrodd am faterion sy'n peri pryder i'r Cyngor Sir. Mae hyn yn cynnwys pryderon diogelwch ar y ffyrdd, tipio anghyfreithlon, atgyweirio ffyrdd a goleuadau troedffyrdd a materion cynllunio. Mae'r Cyngor wedi cyfarfod â sefydliadau perthnasol a Cynghorau arall er mwyn adlewyrchu Pryderon Cymunedol mewn perthynas â'r Prosiect Peilon Gen Gwyrdd a datblygiad arfaethedig yr is-orsaf.

Ym mis Tachwedd trefnodd y Cyngor Wasanaeth Sul y Cofio yn yr Eglwys a Thir Gof yn Llandyfaelog ar y cyd â Changen Cydweli a’r Lleng Prydeinig Brenhinol ac awdurdodau Eglwys Llandyfaelog.

## 6. Activity during 2024-25

2024-25 was another busy year for the Community Council. The Council acts pro-actively to represent local residents and reports issues of concern to the County Council. This includes road safety concerns, flytipping, footway lighting repairs, pot holes and planning issues. The Council has met with relevant organisations and other Councils in order to reflect Community Concerns in relation to the Green Gen Pylon Project and proposed substation development.

In November the Council arranged a Remembrance Sunday Service at the Church and Tir Gof in Llandyfaelog in conjunction with Kidwelly Branch and the Royal British Legion and the Llandyfaelog Church authorities.

## Plannu Bylbiau Daffodiliau / Daffodil Bulb Planting

Planwyd nifer o fylbiau cennin pedr ar draws y Gymuned gan Gyngor Cymuned Llandyfaelog a gwirfoddolwyr, gan gynnwys plant Cywion Bach yn Idole, yn dilyn derbyn bylbiau trwy'r Cynghorydd Sir Tyssul Evans a Chronfa SPF Llywodraeth y DU a weinyddir gan Gyngor Sir Caerfyrddin. Mae plannu eisoes wedi digwydd yng Nhgwmffrwd, Croesyceiliog, Glanmorlais, Idole a Llandyfaelog.

A number of daffodil bulbs were planted across the Community by Llandyfaelog Community Council and volunteers, including the children of Cywion Bach in Idole, following receipt of bulbs through County Councillor Tyssul Evans and the Carmarthenshire County Council Administered, UK Government SPF Fund. Planting took place in Cwmffrwd, Croesyceiliog, Glanmorlais, Idole and Llandyfaelog.




Plannu Cwmffrwd



Plannu Bancycapel



Plannu Idole



Cae Chwarae Idole









Eglwys Llandyfaelog



Glanmorlais

Funded by UK Government — Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

Cefnogwyd gan
Supported by

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

**<u>Cystadleuaeth Gardd Gymunedol 2024 (lluniau – Karen Armitage)</u>**

Enillwyd degfed Gystadleuaeth Gerddi Cyngor Cymuned Llandyfaelog gan Helen Gravelle, Fforest Uchaf, Llandyfaelog a dderbyniodd Darian Dennis Davies oddi wrth Gadeirydd Cyngor Cymuned Llandyfaelog, y Cyng Nicola Jones a Barnwr y Gystadleuaeth Elin Forsyth o Pont Senni mewn Seremoni yn y Neuadd Gymunedol yn Llandyfaelog.

Enillwyd adran yr Ardd Lysiau Orau gan Fforest Uchaf, Llandyfaelog, 20 St Anne's, Cwmffrwd yn ail, a thrydedd Penrhiw, Croesyceiliog, aeth Canmoliaeth Uchel i 13 Ffrwdwen, Cwmffrwd.

Enillwyd Adran yr Ardd Flodau Mawr gan Carreg Wen, Llandyfaelog, gyda Pentywyn, Croesyceiliog yn ail a Fforest Uchaf, Llandyfaelog yn drydydd, aeth Canmoliaeth Uchel i Gellideg, Glanmorlas.

Enillwyd Adran yr Ardd Flodau Bach gan 20 St Anne's Cwmffrwd, gyda 3 Bro Pedr, Llandyfaelog yn ail a 14 St Anne's Cwmffrwd yn drydydd.

Enillwyd adran yr ardd gynwysyddion gan 7 Ffrwdwen, Cwmffrwd gyda Llygaid yr Efail, Upland Arms yn ail a Ysgubor Hen, Llandyfaelog yn drydydd.

Creodd safon yr holl gerddi argraff fawr ar Farnwr y Gystadleuaeth, llongyfarchiadau mawr i bawb cafwyd eu enwebi.

**2024 Community Garden Competition – (photos – Karen Armitage)**

The tenth annual Llandyfaelog Community Council Garden Competition was won by Helen Gravelle of Fforest Uchaf, Llandyfaelog who received the Dennis Davies Shield from Llandyfaelog Community Council Chairman, Cllr Nicola Jones and Competition Judge Elin Forsyth of Sennybridge at a Ceremony at the Community Hall in Llandyfaelog.

The Best Vegetable Garden section was won by Fforest Uchaf, Llandyfaelog, second 20 St Anne's, Cwmffrwd and third Penrhiw, Croesyceiliog, Highly Commended was 13 Ffrwdwen, Cwmffrwd.

The Large Flower Garden Section was won by Carreg Wen, Llandyfaelog with Pentywyn, Croesyceiliog second and Fforest Uchaf, Llandyfaelog third, Highly Commended was Gellideg, Glanmorlais.

The Small Flower Garden Section was won by 20 St Anne's Cwmffrwd, with 3 Bro Pedr, Llandyfaelog second and 14 St Anne's Cwmffrwd third.

The container garden section was won by 7 Ffrwdwen, Cwmffrwd with Llygaid yr Efail, Upland Arms second and Ysgubor Hen, Llandyfaelog third.

The Competition Judge was very impressed by the quality of all the gardens, our congratulations to everyone who was nominated.



Fforest Uchaf


Fforest Uchaf


Fforest Uchaf



20 St Anne's





14 St Anne's





Carreg Wen





Pentywyn





Gellideg, Glanmorlais





7 Ffrwdwen, Cwmffrwd





Llygaid yr Efail, Upland Arms





Ysgubor Hen, Llandyfaelog





Fforest Uchaf















20 St Annes



## Cyngor Cymuned Llandyfaelog Community Council

## Cystadleuaeth Bwgan Brain 2024 Scarecrow Competition

Cynhaliwyd Cystadleuaeth Bwgan Brain Cyngor Cymuned Llandyfaelog ddiwedd mis Gorffennaf, gyda thema Gemau Olimpaidd, gyda chystadleuwyr yn cael eu hannog i arddangos eu cynigion yn barod i feirniadu gan Gadeirydd y Cyngor Cymuned, y Cynghorydd Nicola Jones.

Roedd safon y cynigion wedi gwneud argraff fawr ar y Cyng Jones a thalodd deyrnged i'r trigolion am eu hymdrechion i greu dyluniadau mor drawiadol.

Enillwyd y gystadleuaeth eleni gan Fforest Uchaf, Llandyfaelog. Yn ail oedd Rose and Crown, Llandyfaelog ac yn drydydd oedd Bill a Ben gan Beili Glas, Upland Arms. Cyflwynwyd Tarian Ymdrech Cymunedol Mair Stephens i Helen Gravelle o Fforest Uchaf.

The Llandyfaelog Community Council Scarecrow Competition was held at the end of July, with a Olympics Theme and competitors encouraged to display their entries in readiness for judging by the Community Council Chairman, Cllr Nicola Jones.

Cllr Jones was very impressed with the standard of the entries and paid tribute to residents for their efforts in creating such striking designs.

The competition was won this year by Fforest Uchaf, Llandyfaelog. Second was Rose and Crown, Llandyfaelog. The Mair Stephens Community Effort Shield was presented to Helen Gravelle of Fforest Uchaf.




Fforest Uchaf


Rose & Crown

## 7. Cynlluniau 2025-26

Yn ystod 2025-26 bydd y Cyngor Cymuned yn parhau i chwilio am gyfleoedd a gweithio gyda'i bartneriaid i gefnogi gwelliannau i'n Cymuned ac i ddatblygu ei wasanaethau a'i gyfleusterau tra'n cynnal y rhai sydd eisoes yn eu lle ar ran y trigolion.

Mae nifer o ddigwyddiadau cymunedol ar y gweill gan gynnwys:

- Hyffroddiant Cymorth Cyntaf Cymunedol ym mis Mehefin
- Cystadleuaeth Gardd Gymunedol dros yr haf
- Cystadleuaeth Ymdrech Gymunedol ym mis Awst
- Seremoni Sul y Cofio

## 7. 2025-26 Plans

During 2025-26 the Community Council will continue to seek opportunities and work with its partners to support improvements to our Community and to develop its services and facilities while maintaining those already in place on behalf of the residents.

A number of Community events are planned including:

- Community First Aid Training in June
- Community Garden Competitions over the summer
- Community Effort Competition in August
- Remembrance Sunday Ceremony